# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 13eg o IONAWR 2026 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cadeirydd), Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Celfyn Roberts, Erfyl Williams (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), David Jones (Nantlle), Dafydd Thomas (Nebo), Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Nigel Williams (Talysarn), Judith Humphreys, Justin Davies, Ceri Owen, Barry Bracegirdle (Penygroes), Tesni Glyn (Llanllyfni).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes a rhoddwyd croeso arbennig i aelod newydd dros Ward Nantlle, David Jones.

Rhoddwyd croeso hefyd i Ffion Jones, Swyddog Chwaraeon ac Actif fel person gwadd i roi mwy o wybodaeth am ei rôl.

2. **Datgan buddiant** – nid oedd neb yn datgan buddiant.

3. **Gwadd - Ffion Jones** - esboniodd Ffion ychydig am ei swydd fel Swyddog Chwaraeon ac Actif dros Ddyffryn Nantlle ac mai prif bwrpas y swydd yw i geisio cael mwy o bobl o blant i 100+ oed i fod yn fwy actif. Ffion am yrru e-bost i'r clerc i'w rannu gyda pawb gyda mwy o fanylion am hyn. Diolchwyd i Ffion am ddod i'r cyfarfod ac am ei hamser.

4. **Cofnodion cyfarfod 9fed o Ragfyr 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Cae Brenin Siôr, Llanllyfni -** e-bost wedi ei dderbyn yn dweud na fuasai modd defnyddio'r cae ar unrhyw adeg ar gyfer parcio ac ati. **Cofeb i OP Huws** - eisiau trefnu cyfarfod gyda bwrdd Antur Nantlle i drafod hyn yn fwy manwl - cais gan yr Antur am gyfarfod ar 15fed o Ionawr os oedd unrhyw un ar gael.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Ceisiadau wedi eu derbyn i gael biniau halen yn Bryn Rhedyw, Llanllyfni a Ffordd Nantlle, Talysarn – wedi holi Cyngor Gwynedd ond nid ydynt yn rhoi biniau newydd allan ond mae modd symud rhai nad ydynt yn cael defnydd i rywle sydd fwy o'i angen – disgwyl i'r cyngor yrru rhestr ar gyfer hyn. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

7. **Materion Pentrefi** - **Penygroes -** cwynion dal yn cael eu derbyn am y lori ar camperfan sydd wedi parcio gyferbyn a'i gilydd ar y palmentydd yn nhop Penygroes. Angen dilyn fyny hefo hyn gyda Chyngor Gwynedd a'r heddlu a hefyd cysylltu â pherchnogion y lori i weld os allent hwy gael gair gyda'r gyrrwr. Adroddodd Cyng. Peter Thomas ei fod wedi cael gair gyda pherchennog Garej Povey ynglŷn â pham fod y toiledau wedi cau ac yn anffodus roedd fandaliaid wedi bod yno ac wedi gwneud llanast yna felly maent wedi gorfod cloi a bydd raid i bawb fynd i'r garej i nôl goriad os am ei ddefnyddio. **Llanllyfni -** cerbydau yn cael eu parcio yn anghyfreithlon yn y pentref a rhai hefyd heb dreth nac MOT - angen adrodd am rain i Gyngor Gwynedd. **Talysarn -** Llwybr Boncen Eithin - coeden eisiau ei thorri gan ei bod yn beryglus. Angen diweddariad gan swyddog y cyngor a fu o gwmpas y pentref yn edrych ar gyflwr y ffyrdd, a hefyd gofyn beth yw'r diweddaraf gyda chael llinellau melyn ar Lôn Yr Eglwys? Adroddodd Cyng. Peter Thomas fod hyn mewn proses.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. **Praesept 2026/27** - aethpwyd drwy'r ffigyrau a gweld faint fuasai'r gost o godi'r praesept ar dreth cyngor y trigolion. Yn dilyn trafodaeth cynigwyd i ofyn am praesept o £55,000 am y flwyddyn 2026/27. Eiliwyd y cynnig a chytunodd pawb. **Safle bws Penygroes -** yn dilyn trafodaeth os am wario ar drwsio'r safle cytunwyd y dylid gwneud hyn. Roedd prisiau wedi eu derbyn mis diwethaf ac felly eisiau gofyn a ydynt dal yr un fath - os felly yna gofyn i Designer Signs gario allan y gwaith.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - adroddodd Gwyndaf Roberts ei fod wedi ymweld â'r tair mynwent a'u bod yn daclus iawn. Dywedodd fod llechen angen ei ail-osod ar do cwt Mynwent Gorffwysfa. **Estyniad Mynwent Gorffwysfa -** ebost wedi ei dderbyn gan ICCM am sut dylid gwneud hyn - y clerc i yrru'r ebost i bawb edrych drosto.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________

10. **Ceisiadau Cynllunio** – dim cais i'w drafod.

11. **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth** - adroddodd y clerc ei bod wedi mynychu weminar a oedd wedi ei gynnal gan Unllais am hyn a bod yna lawer o bethau angen eu cysidro a chario allan. Maent am yrru'r sleidiau a oedd yn rhan o'r weminar ymlaen ac wedyn Nia i'w rhannu â phawb er mwyn cael gweld beth sydd eisiau wneud.

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw beth

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

- Nia Jones - ffôn a gwe = **£25.00**
- Papur Bro Lleu – hysbyseb = **£17.00**

14. **Unrhyw fater arall** – dim i'w drafod

15. **Tir Cwtin** – nid oedd dim i'w drafod ar y mater hwn.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 10fed o Chwefror 2026 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________